Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol**

# Isafbris Uned am Alcohol yng Nghymru

Mehefin 2025

## 1. Cefndir

**1.** Daeth *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018*[1] i rym ar 2 Mawrth 2020. Cyflwynodd y Ddeddf yn 'isafbris uned' ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru a'i gwneud yn drosedd i alcohol gael ei werthu am lai na'r pris hwnnw.

**2.** Nod y Ddeddf oedd lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol drwy gynyddu cost alcohol rhad, cryf iawn, ar gael yn rhwydd sydd yn aml yn gysylltiedig â defnydd niweidiol o alcohol a materion iechyd cysylltiedig. Y bwriad hefyd oedd lleihau faint o alcohol sy'n cael ei yfed gan bobl sy'n yfed mewn modd peryglus a niweidiol, gan leihau'r effeithiau ar yfwyr cymedrol cymaint â phosibl.

**3.** Mae'r Ddeddf yn cynnwys 'cymal machlud', sy'n golygu y bydd isafbris uned am alcohol yn dod i ben yng Nghymru ym mis Mawrth 2026 oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cymryd camau i'w estyn. Mae'r Ddeddf hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth Cymru lunio adroddiad ar weithrediad ac effaith y ddeddfwriaeth bum mlynedd ar ôl ei gweithredu.

**4.** Ym mis Ionawr 2025, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y adroddiadau terfynol y gwerthusiad annibynnol[2] roedd wedi'i gomisiynu ar weithrediad ac effaith y Ddeddf. Mae hefyd yn cynnal ymgynghoriad i gasglu barn am ymwybyddiaeth o isafbris uned yng Nghymru a'i effaith.

[1] Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018
[2] Llywodraeth Cymru, Ymchwil ar isafswm prisio ar gyfer alcohol, Ionawr 2025

# Argymhellion

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n darparu ar gyfer parhad isafbris uned am alcohol yng Nghymru. ........ 18

**Argymhelliad 2.** Fel rhan o unrhyw bolisi isafbris uned parhaus, dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro a gwerthuso ei weithrediad a'i effaith. Dylai hyn fod yn gryfach, ac yn fwy o ran graddfa na'r gwerthusiad blaenorol a dylai gynnwys dadansoddiad meintiol hydredol o ganlyniadau allweddol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol. ........ 18

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r isafbris uned presennol am alcohol ac, wrth bennu unrhyw bris newydd, dylai ystyried manteision gweinyddol alinio â'r isafbris uned yn yr Alban. ........ 18

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith i adolygu ac addasu'r isafbris uned am alcohol yn rheolaidd, yn enwedig mewn ymateb i chwyddiant, er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd parhaus. ........ 18

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw waith monitro a gwerthuso isafbris uned am alcohol yn y dyfodol yn ystyried effaith y polisi ar yfwyr dibynnol sydd ar incwm isel. ........ 19

**Argymhelliad 6.** Fel rhan o unrhyw barhad o'r isafbris uned, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer camddefnyddio sylweddau fel elfen bwysig mewn dull system gyfan o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol. ........ 19

**Argymhelliad 7.** Dylai unrhyw werthusiad o isafbris uned yn y dyfodol ystyried effaith y polisi ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys yfed dan oed ac effaith alcohol ar fywydau plant a phobl ifanc mewn aelwydydd lle y mae un neu ragor o'r rhieni neu'r gwarcheidwaid yn ddibynnol ar alcohol. ........ 20

**Argymhelliad 8.** Os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r isafbris uned, dylai barhau â'i negeseuon iechyd cyhoeddus o ran: ........ 20

- diben y polisi; ........ 20
- effaith ehangach yfed gormod o alcohol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl ........ 20

**Argymhelliad 9.** Fel rhan o unrhyw bolisi parhaus, dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu arolwg ar raddfa fawr er mwyn monitro agweddau'r cyhoedd tuag at yr isafbris uned yn barhaus. ..... 20

# 2. Ein hymchwiliad

**5.** Ar 21 Ionawr 2025, ysgrifennodd y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant[3] at y Pwyllgor i roi gwybod i ni am gyhoeddi'r adroddiadau terfynol y gwerthusiad ar isafbris uned a'n gwahodd i gynnal ein hadolygiad ein hunain o'r Ddeddf drwy alwad fer am dystiolaeth.

**6.** Yn dilyn ystyried y llythyr hwnnw, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad byr i lywio ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ei hun fel rhan o'i hadroddiad ar weithrediad ac effaith isafbris uned am alcohol yng Nghymru.

**7.** Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad ysgrifenedig o 12 Mawrth i 30 Ebrill 2025.[4] Cafwyd 20 ymateb.[5] Fel rhan o'r ymgynghoriad hwnnw, gwnaethom wahodd barn am y canlynol:

- dealltwriaeth y cyhoedd o isafbris uned am alcohol yng Nghymru;
- effaith isafbris uned am alcohol ar grwpiau, gan gynnwys yfwyr agored i niwed a dibynnol, plant a phobl ifanc, ac aelwydydd incwm isel;
- effaith isafbris uned am alcohol ar fanwerthwyr ac awdurdodau lleol;
- dyfodol isafbris uned am alcohol yng Nghymru, gan gynnwys a ddylai barhau ac a ddylid adolygu'r isafbris uned presennol;
- effaith isafbris uned am alcohol yng Nghymru ar wasanaethau trin a chymorth ar gyfer alcohol ac a ddylid ystyried neu gryfhau dulliau polisi eraill ar gyfer y niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol;
- effaith isafbris uned o ran y risg y gall sylweddau mwy peryglus ac anghyfreithlon gymryd lle alcohol.

**8.** Hoffem ddiolch i bawb a gyflwynodd ei farn i ni.

---

[3] PTN 5 - Llythyr oddi wrth y Gweinidog Iechyd Meddwl a Llesiant ynglŷn â'r Isafbris Uned am Alcohol, 21 Ionawr 2025
[4] Isafbris Uned am Alcohol yng Nghymru
[5] Isafbris Uned am Alcohol yng Nghymru – ymgynghoriad

# 3. Isafbris uned am alcohol

**9.** Gosododd gweithredu *Deddf Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) 2018* ym mis Mawrth 2020 bris sylfaen ar gyfer gwerthu a chyflenwi alcohol yng Nghymru.

**10.** Mae isafbris uned diod alcoholaidd yn cael ei gyfrifo drwy ddefnyddio fformiwla:

*Isafbris Uned (50c) x cryfder (% alcohol yn ôl cyfaint) x cyfaint (litr)*

**11.** Yr isafbris uned yng Nghymru yw 50c ar hyn o bryd[6].

## Cyd-destun y DU o ran isafbris uned am alcohol

**12.** Cyflwynwyd isafbris uned yn yr Alban yn 2018. Daeth gwerthusiad ohono i'r casgliad ei fod wedi cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau iechyd, sef gostyngiad yn nifer y marwolaethau a nifer y derbyniadau i'r ysbyty y gellir eu priodoli i alcohol, yn enwedig ymhlith dynion a phobl sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig. Ar ben hynny, ni chanfu dystiolaeth glir o effeithiau negyddol sylweddol ar y diwydiant diodydd alcoholaidd, nac o niwed cymdeithasol ar lefel y boblogaeth.

**13.** Ym mis Ebrill 2024, pleidleisiodd Senedd yr Alban i gadw'r isafbris uned a'i gynyddu o 50c i 65c yr uned.

**14.** Ym mis Hydref 2024, cyhoeddwyd bod Gogledd Iwerddon hefyd yn debygol o gyflwyno isafbris uned.

## Gwerthusiad Llywodraeth Cymru o isafbris uned am alcohol

**15.** Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi adroddiad ar weithrediad ac effaith deddfwriaeth isafbris uned bum mlynedd ar ôl i'r polisi gael ei weithredu. Comisiynodd Llywodraeth Cymru werthusiad annibynnol o'r ddeddfwriaeth a chafodd yr adroddiadau terfynol eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2025.

[6] Rheoliadau Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Isafbris Uned) (Cymru) 2019

**16.** I grynhoi, canfu'r gwerthusiad annibynnol fod y gweithrediad yn "rhywbeth llyfn ac effeithiol" ac y cafwyd gwared ar rywfaint o alcohol rhad, cryf o ganlyniad. Canfuwyd "rhywfaint o dystiolaeth ddangosol bod y defnydd yng Nghymru yn gyffredinol… wedi gostwng" ers cyflwyno isafbris uned.[7]

**17.** Roedd tystiolaeth hefyd i awgrymu bod isafbris uned wedi cael effaith negyddol ar yfwyr sydd ar incwm isel, yn achosi straen ariannol, a bod rhai ohonynt yn "mynd heb fwyd neu beidio â t[h]alu biliau".[8]

**18.** Fodd bynnag, cydnabu'r gwerthusiad annibynnol hefyd yr heriau sylweddol o werthuso'r isafbris uned, o ystyried bod y cyfnod gweithredu yn cynnwys "'cyni', newidiadau mewn tollau cartref, 'argyfwng costau byw', COVID-19, cyfleoedd siopa trawsffiniol, actorion yn y diwydiant, chwyddiant, a chyfyngiadau datganoli (e.e. ar farchnata a thrwyddedu alcohol)." Cydnabu hefyd fod y gwerthusiad o'r isafbris uned yng Nghymru yn "gymharol fach" o ran cwmpas a graddfa.[9]

## Ein canfyddiadau ni o'r ymgynghoriad

**19.** Yn ystod ein cyfarfod ar 21 Mai 2025, gwnaethom ystyried y dystiolaeth ysgrifenedig a gawsom fel rhan o'n hymgynghoriad. Mae'r prif ganfyddiadau wedi'u crynhoi isod yn ôl thema.

### Ymwybyddiaeth gyhoeddus o isafbris uned am alcohol

**20.** Disgrifiodd y Sefydliad Astudiaethau Alcohol ymdrech bendant Llywodraeth Cymru i gyfleu diben yr isafbris uned ar adeg ei weithredu. Dywedodd yr Sefydliad Astudiaethau Alcohol fod tystiolaeth ansoddol yn dangos bod llawer o bobl yn deall y cysyniad sylfaenol ond bod camsyniadau o hyd.[10]

**21.** Fel y pwysleisiodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLlLC):

> *"(…) gydag effeithiau'r pandemig, ac yn bwysicach, yr argyfwng costau byw nid yw'r neges mor gryf neu nid yw bellach yn berthnasol i nifer o bobl.*

[7] *Adroddiad Terfynol – Adolygiad o Gyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, 15 Ionawr 2025
[8] *Adroddiad Terfynol – Adolygiad o Gyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, 15 Ionawr 2025
[9] *Adroddiad Terfynol – Adolygiad o Gyflwyno Isafbris am Alcohol yng Nghymru*, Llywodraeth Cymru, 15 Ionawr 2025
[10] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP03 [Saesneg yn unig]

*Efallai bod goblygiadau ehangach yr argyfwng costau byw ar gyllidebau unigolion a theuluoedd, lefelau cynyddol o dlodi ac argyfwng tai a digartrefedd, sydd oll yn ychwanegu straen a phwysau y mae pobl yn ei deimlo, wedi disodli'r naratif."*[11]

**22.** Galwodd ymatebwyr eraill am negeseuon iechyd cyhoeddus gwell i godi ymwybyddiaeth o'r isafbris uned ac effeithiau alcohol yn fwy cyffredinol. Nododd Coleg Brenhinol y Seiciatryddion yng Nghymru y canlynol:

*"the physical and mental health risks of excessive alcohol intake should continue to be prioritised (…) in the Welsh Government's and NHS Wales' public health messaging."*[12]

**23.** Awgrymodd Iechyd Cyhoeddus Cymru y byddai'n ddefnyddiol i Lywodraeth Cymru gynnal arolwg mwy er mwyn gallu olrhain agweddau'r cyhoedd tuag at isafbris uned yn fwy effeithiol.[13]

## Effaith isafbris uned am alcohol

### Niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol

**24.** Roedd gweithredu isafbris uned am alcohol yng Nghymru yn cyd-ddigwydd â'r pandemig Covid-19. Soniodd nifer o ymatebwyr am heriau gwerthuso ei effaith pan oedd y darlun ehangach mor "anniben". Dywedodd Alcohol Change UK y canlynol:

*"(…) o ran tystiolaeth uniongyrchol fod yr isafbris yn gwella iechyd y wlad, teg yw cydnabod bod y canlyniadau yn galonogol mewn mannau ond heb fod yn ddiamwys. Fel y nododd timau gwerthuso isafbrisiau Cymru a'r Alban fel ei gilydd, mae'r darlun yn "anniben" ac mae'r pandemig Covid-19 wedi cymylu'r darlun i gryn raddau."*[14]

**25.** Bu cynnydd sylweddol mewn marwolaethau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol yn ystod blynyddoedd y pandemig Covid-19. Yn ôl y data a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) ym mis Chwefror 2025, yn y pedair blynedd rhwng 2019 a 2023, cododd nifer y marwolaethau a achoswyd gan

[11] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP14
[12] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP16 [Saesneg yn unig]
[13] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP17 [Saesneg yn unig]
[14] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01

gamddefnyddio alcohol 25% yn yr Alban, 42% yn Lloegr, a 52% yng Nghymru. Cafwyd cynnydd 15.6% mewn marwolaethau yng Nghymru rhwng 2022 a 2023.

**26.** Dywedodd Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield ym Mhrifysgol Sheffield fod rhywfaint o dystiolaeth bod y cynnydd mewn marwolaethau sy'n ymwneud yn benodol ag alcohol yn y blynyddoedd yn syth ar ôl i'r isafbris uned gael ei gyflwyno yn llai yng Nghymru a'r Alban, lle y gweithredwyd y polisi, nag yn Lloegr. Yn ôl y Grŵp:

> *"this suggests the MUP reduced the negative impact of the Covid-19 pandemic on alcohol-specific deaths; however, it is only weak evidence as it does not account for other factors that may be driving the trend in deaths."*[15]

**27.** Rhannodd Alcohol Change UK ganfyddiadau ei ymchwil ei hun yng Nghymru, sy'n dangos bod yr isafbris uned wedi:

- Cael gwared ar boteli dau litr a thri litr o seidr cryf iawn, gwyn;
- Tynnu rhai o'r gwirodydd rhataf o'r silffoedd;
- Ei gwneud yn fwy anodd i'r siopau mawrion gynnig disgowntiau am brynu yn swmp, fel tair potelaid o win am bris dwy;
- Ar y cyd â newidiadau i'r tollau ar alcohol, mae wedi gwthio rhai cynhyrchwyr i newid rhai o'u diodydd, gan leihau cryfder alcoholaidd a/neu faint poteli a chaniau.[16]

**28.** Dywedodd Alcohol Change UK ei fod yn ffyddiog y byddai'r newidiadau hyn yn llesol i iechyd yn y pendraw.[17]

**29.** Dywedodd Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield fod y rhaglen werthuso ar gyfer isafbris uned am alcohol yng Nghymru yn sylweddol lai nag yn yr Alban a'i bod yn ansoddol i raddau helaeth, sy'n golygu bod diffyg tystiolaeth gadarn o effaith yr isafbris uned yng Nghymru mewn sawl maes allweddol, gan gynnwys yr effaith ar werthiant alcohol, derbyniadau i'r ysbyty, marwolaethau neu droseddu.[18]

[15] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP07 [Saesneg yn unig]
[16] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01
[17] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01
[18] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP07 [Saesneg yn unig]

**30.** Galwodd Iechyd Cyhoeddus Cymru am:

> *"(…) longitudinal quantitative analysis to be able to judge the impact of the policy against outcomes such as hospital admissions, which could report in the short, medium and long term to be able to account for the time it would take for the impact to be shown in data."*[19]

**Yfwyr dibynnol ac agored i niwed**

**31.** Honnodd Alcohol Change UK mai'r newid mwyaf yn sgil yr isafbris uned fu'r newid i bris y seidrau rhataf, cryfaf, neu "seidr gwyn", sef yr hyn sy'n cael ei yfed yn bennaf gan yfwyr sy'n ddibynnol ar alcohol ac y canfuwyd ei fod yn cael effaith arbennig o niweidiol ar eu hiechyd a'u hymddygiad. Dywedodd y canlynol:

> *"Cyn yr isafbris roedd poteli tri-litr o seidr gwyn gyda chryfder o 7.5% ar werth yng Nghymru am gyn lleied â £3.99, sef 18c yr uned. Gydag isafbris o 50c yr uned, ni ellid gwerthu'r poteli hyn – oedd yn dal 22.5 uned o alcohol – am lai na £11.25. Ar y fath bris, ni fynnai prin neb eu prynu a diflannon nhw o'r silffoedd."*[20]

**32.** Dywedodd Alcohol Change UK fod caniau 500ml yn y siopau yn lle poteli tri litr o seidr gwyn. Mae'n dweud mai "cam mawr iawn yw e tuag at leihau niwed" gan fod 22.5 uned o alcohol bellach yn costio £11.25 yn lle £3.99 a bod rhaid i bobl brynnu hynny ar ffurf chwe chan 500ml. Dywedodd y canlynol:

> *"Yn y bôn, mae'r holl broses yn fwy anodd a mwy anghyfleus. Mae rhaid gwneud chwe phenderfyniad i yfed, sydd hefyd yn chwe chyfle i benderfynu nad yw'n werth cael rhagor. Trwy oedi ac arafu'r broses yfed yn y fath fodd, mae'r isafbris yn lleihau niwed ac yn creu cyfleoedd i weithwyr agosáu at yfwyr, dod i ddeall eu hanghenion, a dechrau eu tywys tuag at wellhad."*[21]

**33.** Cyfeiriodd ymatebwyr eraill at dystiolaeth yn y gwerthusiad annibynnol y newidiodd rhai yfwyr dibynnol eu harferion yfed drwy droi at wirodydd yn dilyn y gostyngiad yn argaeledd seidr gwyn. Dywedodd Gwasanaeth Camddefnyddio

[19] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP17 [Saesneg yn unig]
[20] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01
[21] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01

Sylweddau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod rhai o'i gleifion yn yfed mwy o alcohol bob dydd o ganlyniad.[22]

**34.** Fodd bynnag, dywedodd y Sefydliad Astudiaethau Alcohol y canlynol:

> *"as the per unit cost of alcohol would have been more expensive after MUP – whether it was consumed as cider or spirits – it is likely that consumption will have decreased among dependent drinkers."*[23]

**35.** Awgrymodd Alcohol Focus Scotland mai cyfraniad mwyaf yr isafbris uned tuag at leihau dibyniaeth ar alcohol yw helpu i leihau'r risg y bydd eraill yn mynd yn ddibynnol yn y dyfodol yn hytrach na chael effaith ar yfwyr sy'n ddibynnol ar hyn o bryd. Dyfynnodd gyfranogwr mewn sesiwn gyda Borders in Recovery yn 2024:

> *"I don't think it will discourage the people that are in active addiction at the moment and people that are dependent on alcohol. But I think it's more about making sure that the next generation isn't following in their footsteps and nobody wants their children to grow up to be alcoholics."*[24]

### Plant a phobl ifanc

**36.** Dadleuodd nifer o ymatebwyr fod y gwerthusiad annibynnol yn canolbwyntio ar oedolion ac nad yw o ganlyniad yn rhoi treiddgarwch i effaith yr isafbris uned ar blant a phobl ifanc. Dywedodd Alcohol Change UK fod angen mwy o ymchwil ar effaith yr isafbris uned yng Nghymru ar:

- yfed dan oed;
- bywydau plant a phobl ifanc sy'n byw ar aelwydydd lle mae un neu ragor o'r rhieni yn ddibynnol ar alcohol.[25]

**37.** Tynnodd Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant (Cymru) sylw at ddata sy'n dangos, er bod nifer y derbyniadau i'r ysbyty sy'n gysylltiedig ag alcohol

[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP02 [Saesneg yn unig]
[23] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP03 [Saesneg yn unig]
[24] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP20 [Saesneg yn unig]
[25] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01

ymhlith plant a phobl ifanc wedi gostwng dros y 10 mlynedd diwethaf, fod nifer y gwaharddiadau o'r ysgol oherwydd alcohol a chyffuriau wedi cynyddu.[26]

**38.** Dywedodd Iechyd Cyhoeddus Cymru fod 35.6% o bobl ifanc rhwng 11 ac 16 oed yn nodi eu bod wedi yfed alcohol. Dywedodd y Coleg Brenhinol Pediatreg ac Iechyd Plant hefyd y rhestrwyd camddefnyddio sylweddau neu alcohol gan rieni fel ffactor mewn 30% o achosion ar gyfer atgyfeirio plant i ofal a chymorth yn 2023.[27]

**39.** Dywedodd nifer o ymatebwyr fod gan y gallai'r isafbris uned gael effaith ar fywydau plant a phobl ifanc, o ystyried effaith bosibl alcohol. Fodd bynnag, roedd yr ymatebwyr yn gyffredinol yn glir bod prinder ymchwil yn y maes hwn.

### Aelwydydd incwm isel

**40.** Tynnodd Coleg Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol Cymru sylw at anghydraddoldeb yn y niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol:

> *"The effects of alcohol harm fall disproportionately on men, older adults, and those living in the most deprived areas. Nearly two-thirds of alcohol-specific deaths occurred in men, and 67% of over 12,000 alcohol-related hospital admissions involved individuals aged 50 and over. People in the most deprived areas of Wales face hospitalisation rates nearly three times higher than those in more affluent communities. This inequality demands urgent and sustained intervention."*[28]

**41.** Dywed Ymddiriedolaeth yr Afu ym Mhrydain y cynyddodd nifer y diagnosau o glefyd yr afu sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru 60% rhwng 2002 (1,366) a 2021 (2,198) gyda chyfraddau diagnosis dair gwaith yn uwch yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.[29]

**42.** Nododd Scottish Health Action on Alcohol Problems fod yr isafbris uned wedi lleihau anghydraddoldebau iechyd yn yr Alban drwy achub mwy o fywydau yng nghymunedau mwyaf difreintiedig yr Alban.[30]

[26] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP11 [Saesneg yn unig]
[27] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP17 [Saesneg yn unig]
[28] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP04 [Saesneg yn unig]
[29] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP13 [Saesneg yn unig]
[30] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP06 [Saesneg yn unig]

**43.** Fodd bynnag, cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch effaith ariannol yr isafbris uned yng Nghymru, yn enwedig ar yfwyr dibynnol ar incwm isel. Adleisiodd hyn y gwerthusiad annibynnol, a ganfu y cafodd yr isafbris uned effaith negyddol drwy gynyddu'r straen ariannol ar bobl incwm isel sy'n yfed yn drwm, a bod hyn weithiau wedi arwain at fynd heb fwyd neu beidio â thalu biliau eraill.

**44.** Nododd Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield fod pobl sydd â dibyniaeth ar alcohol ac incwm isel wedi cael cynnydd mewn anawsterau ariannol ers i'r isafbris uned gael ei gyflwyno, gan ddweud bod hyn wedi arwain atynt yn defnyddio strategaethau megis benthyca anffurfiol, gwario cynilion a mynd i fanciau bwyd er mwyn parhau i brynu alcohol.[31]

**45.** Dywedodd Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr fod rhai o'i ddefnyddwyr gwasanaeth yn nodi nad ydynt yn gallu fforddio prynu alcohol, a allai arwain at risg uwch a mwy o achosion o argyfyngau iechyd sy'n gysylltiedig â diddyfnu.[32]

**46.** Dadleuodd Cymdeithas Feddygol Prydain Cymru y dylai Llywodraeth Cymru nodi effaith y polisi ar boblogaethau penodol o yfwyr incwm isel ac yfwyr trwm a sicrhau bod ei thriniaeth am alcohol, ei pholisi, a'i darpariaeth yn diwallu anghenion y grŵp hwn.[33]

**47.** Dywedodd Alcohol Change UK nad alcohol rhatach oedd yr ateb i'r broblem hon ond "gwell cefnogaeth i bobl gyda phroblemau alcohol i gyrchu bwyd", megis galluogi mwy o bobl i gael mynediad at fanciau bwyd a phantrïau bwyd, sicrhau bod pobl yn cael yr holl fudd-daliadau y mae ganddynt hawl iddynt, a chefnogi pobl sydd â phroblemau alcohol i fwyta mwy o fwyd a bwyd gwell.[34]

### Manwerthwyr ac awdurdodau lleol

**48.** Nododd Alcohol Change UK nad yw'r "isafbris i'w weld yn gosod baich afresymol ar fanwerthwyr nac awdurdodau lleol."[35]

**49.** Caiff y gwaith o weithredu a monitro'r isafbris uned ei gyflawni gan awdurdodau lleol drwy dimau Safonau Masnach er mwyn sicrhau cydymffurfedd. Dywedodd CLlLC fel a ganlyn:

[31] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP07 [Saesneg yn unig]
[32] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP02 [Saesneg yn unig]
[33] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP15 [Saesneg yn unig]
[34] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01
[35] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01

> *"Mae swyddogion yn adrodd nad yw'r baich rheoleiddio newydd wedi effeithio'n sylweddol ar eu swyddogaethau dyddiol. Fodd bynnag, mae wedi bod yn ofynnol i swyddogion ddeall a dehongli'r ddeddfwriaeth newydd yn ddigonol, er mwyn archwilio a chynghori perchnogion eiddo a busnesau i sicrhau cydymffurfiaeth. Ychydig iawn o orfodi sydd wedi cael ei wneud, gydag ychydig iawn o gwynion wedi'u derbyn, a dim ond un rhybudd cosb wedi ei gyhoeddi."*[36]

## Dyfodol isafbris uned am alcohol yng Nghymru

**50.** O'r 18 o ymatebwyr i'r ymgynghoriad a ymdriniodd yn uniongyrchol â dyfodol isafbris uned am alcohol yng Nghymru, ac eithrio un (Cymdeithas Masnach Gwin a Gwirodydd), dywedodd pob un y dylai barhau. Dywedodd Ymchwil Canser y DU y canlynol:

> *"Removing MUP would present a rolling back of an effective, cost-effective and evidence-based public health measure to reduce alcohol harm, especially amongst people who drink the most."*[37]

**51.** Mae gan Gymdeithas Masnach Gwin a Gwirodydd bryderon am y sail dystiolaeth ar gyfer effeithiolrwydd yr isafbris uned o ran lleihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ac nid oedd yn credu bod yr isafbris yn fesur effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â niwed/marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol ac felly na ddylai barhau y tu hwnt i'r cymal machlud ym mis Mawrth 2026.[38]

**52.** Er bod nifer o'r ymatebwyr yn cefnogi parhad yr isafbris uned, gwnaethant bwysleisio nad yw'n bolisi berffaith nac yn ddigonol i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

**53.** Soniodd Coleb Brenhinol yr Ymarferwyr Cyffredinol fod yr isafbris uned yn ddarn braidd yn glogyrnaidd o bolisi - sydd, yn y bôn, yn ei gwneud yn ofynnol i ddefnyddwyr dalu cymhorthdal i'r diwydiant diodydd. Dywedodd fod yr isafbris uned yn gyfiawn fel mesur dros dro gan y cyfyngiadau cyfansoddiadol presennol sy'n atal Llywodraeth Cymru rhag gosod ardoll ar unedau alcohol.[39]

[36] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP14
[37] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP10 [Saesneg yn unig]
[38] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP08 [Saesneg yn unig]
[39] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP04 [Saesneg yn unig]

**54.** Mynegodd nifer o ymatebwyr bryder efallai na fydd modd gweithredu'r isafbris uned eto yn y dyfodol os caniateir iddo ddod i ben yn 2026.

**55.** Nododd Ymddyriedolaeth yr Afu ym Mhrydain y canlynol:

> *"it is important to note that the Wales Act 2017 specifically designated sale and supply of alcohol as a matter for Westminster. This means that if MUP is allowed to lapse in Wales in 2026, it could be more problematic for the Senedd to reinstate it in future, potentially requiring permission from the UK Government, which could be refused if not aligned with Westminster's UK-wide policy goals."*[40]

### Adolygu'r isafbris uned presennol

**56.** Dywedodd nifer sylweddol o ymatebwyr a oedd yn credu y dylai'r isafbris uned barhau hefyd y dylai godi i 65c, yn unol â'r isafbrif uned yn yr Alban. Gwnaethant ddweud bod chwyddiant yn dilyn y pandemig Covid-19 wedi erydu ei effeithiolrwydd ar y gyfradd bresennol, sef 50c.

**57.** Dadleuodd hyd yn oed Cymdeithas Masnach Gwin a Gwirodydd, nad oedd o blaid parhau ag isafbris uned, pe bai penderfyniad yn cael ei wneud i gynyddu'r isafbris uned am alcohol yng Nghymru, mai aliniad â'r Alban fyddai orau.[41]

**58.** Awgrymodd rhai ymatebwyr y dylai'r isafbris uned gael ei adolygu a'i addasu'n rheolaidd i gyd-fynd â chwyddiant. Dywedodd Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield y dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu a gweithredu mecanwaith ar gyfer cynyddu'r isafbris uned yn rheolaidd.[42]

**59.** Dadleuodd Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield y dylid cymhwyso'r yr egwyddor mai'r llygrwr sy'n talu i werthu alcohol. Mae hyn yn golygu y dylid gosod ardoll ar fanwerthwyr alcohol i adennill yr enillion y mae'r diwydiant alcohol yn eu gwneud o'r isafbris uned, gyda'r arian hwnnw'n cael ei ddefnyddio wedyn i gynyddu cyllid ar gyfer gwasanaethau trin alcohol.[43]

**60.** Roedd Cymdeithas Masnach Gwin a Gwirodydd yn gwrthwynebu'n gryf yr awgrym o ardoll, gan ddadlau nad oes digon o dystiolaeth i ddangos bod isafbris uned yn cynyddu trosiant neu elw, ac nad yw'n bosibl rhagweld sut y gallai isafbris

[40] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP13 [Saesneg yn unig]
[41] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP08 [Saesneg yn unig]
[42] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP07 [Saesneg yn unig]
[43] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP06 [Saesneg yn unig]

uned effeithio ar y naill fetrig neu'r llall ar gyfer unrhyw fusnes penodol. Mae'n dweud nad oes fformiwla deg neu gyson y gellid ei chymhwyso.[44]

**Effaith isafbris uned am alcohol yn Nghymru ar wasanaethau trin a chymorth ar gyfer alcohol**

**61.** Mynnodd yr ymatebwyr mai dim ond un elfen o becyn ehangach o gymorth camddefnyddio sylweddau a mesurau ataliol i leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol y gall isafbris uned fod.

**62.** Dywedodd Alcohol Change UK y canlynol:

> *"bu cryn fuddsoddi yn y blynyddoedd diwethaf mewn gwasanaethau lleol yng Nghymru i gynnal mwy o bobl ar eu taith at wellhad, a rhaid i hynny barhau".*[45]

**63.** Dadleuodd fod rhaid i'r gwasanaethau hyn "fynd allan yn bwrpasol i chwilio ambobl mewn angen" i gyrraedd y rhai sydd angen cymorth fwyaf yn eu lleoliadau eu hunain.[46]

**64.** Adroddodd Gwasanaeth Camddefnyddio Sylweddau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr am gynnydd yn nifer yr atgyfeiriadau yn ymwneud ag unigolion sy'n goryfed mewn pyliau neu'n ddibynnol ar alcohol. Fodd bynnag, mae'n dweud y gallai'r cynnydd hwn ddeillio o'r isafbris uned, neu o'r cynnydd mewn yfed alcohol yn ystod Covid, neu o'r cynnydd mewn costau byw.[47]

**65.** Dywedodd Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield nad oedd tystiolaeth glir bod yr isafbris uned wedi effeithio ar yr angen am driniaeth neu wasanaethau cymorth ar gyfer alcohol yng Nghymru. Er bod gwneud alcohol yn llai fforddiadwy o bosibl wedi annog rhai i geisio triniaeth, mae'n bosibl ei fod hefyd wedi helpu eraill i yfed llai o alcohol heb driniaeth.[48]

**66.** Cododd nifer o ymatebwyr bryderon ynghylch argaeledd a hygyrchedd gwasanaethau triniaeth am alcohol yng Nghymru. Roedd Grŵp Ymchwil Caethiwed Sheffield yn honni bod gwasanaethau triniaeth a chymorth ar gyfer alcohol yn parhau i fod yn anodd eu cyrchu, bod ganddynt ddiffyg adnoddau a'u bod yn annigonol i ddiwallu lefel yr angen yng Nghymru.[49] Dywedodd Coleg

[44] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP08 [Saesneg yn unig]
[45] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01
[46] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP01
[47] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP02 [Saesneg yn unig]
[48] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP07 [Saesneg yn unig]
[49] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP07 [Saesneg yn unig]

Brenhinol y Seiciatryddion fod angen cynyddu nifer y seiciatryddion a phroffesiynau eraill sy'n gweithio mewn gwasanaethau caethiwed arbenigol i leddfu llwythi gwaith presennol a gwella capasiti.[50]

### Dulliau polisi eraill i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol

**67.** Dywedodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan y canlynol:

> *"Many people accessing alcohol services in Gwent have encountered trauma or adverse experiences in their past, resulting in current complex, co-occurring health and social care needs. As such, to reduce alcohol harms, the wider determinants which influence health and wellbeing must also be improved and a whole life-course approach taken."*[51]

**68.** Tynnodd ymatebwyr sylw at ddiffyg strategaeth alcohol, ar lefel Cymru a'r DU, i fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol ar raddfa ehangach.

**69.** Dywedodd Ymddiriedolaeth yr Afu ym Mhrydain y canlynol:

> *"(…) the UK has not had a new national alcohol strategy since 2012, and the picture of alcohol harm (as well as people's drinking habits post-pandemic) has changed markedly since then. We therefore continue to call on the UK Government to bring forward a new UK alcohol strategy, with a range of policy initiatives tackling price, promotion and availability of alcohol, alongside bolstered treatment and support services to urgently tackle the growing alcohol harm crisis across the UK."*[52]

**70.** Yng Nghymru, roedd y strategaeth camddefnyddio sylweddau 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Leihau Niwed' ar waith o 2008 i 2018, ac yna Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau o 2019 i 2022. Dywedodd Conffederasiwn GIG Cymru fod datblygu strategaeth genedlaethol wedi'i diweddaru ar gyfer camddefnyddio sylweddau gydag ymrwymiadau, rolau, cyfrifoldebau clir trawslywodraethol, a dyraniad adnoddau priodol ar gyfer gwasanaethau atal, adnabod yn gynnar, a chymorth yn hanfodol ar gyfer dull system gyfan o fynd i'r afael â niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru.[53]

---

[50] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP16 [Saesneg yn unig]
[51] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP05 [Saesneg yn unig]
[52] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP13 [Saesneg yn unig]
[53] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP19 [Saesneg yn unig]

**71.** Dadleuodd Cymdeithas Feddygol Prydain, o ystyried y setliad datganoli cymysg ynghylch camddefnyddio alcohol a sylweddau, y dylai Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU weithredu ar y cyd pan fo'n briodol i fynd i'r afael ag yfed peryglus a niweidiol yng Nghymru.[54]

**Effaith ar newid alcohol am sylweddau mwy peryglus ac anghyfreithlon**

**72.** Ni chanfu'r gwerthusiadau o'r isafbris uned yng Nghymru a'r Alban dystiolaeth o yfwyr yn troi at sylweddau mwy peryglus neu anghyfreithlon yn lle alcohol, a chytunodd yr ymatebwyr i'r ymgynghoriad nad oedd tystiolaeth i awgrymu bod hyn yn broblem.

## Ein barn ni

**73.** Roedd cefnogaeth fwyafrifol ymhlith y rhai a ymatebodd i'n hymgynghoriad ar gyfer parhau ag isafbris uned ar gyfer alcohol yng Nghymru. Fel Pwyllgor, rydym yn cefnogi'r safbwynt hwn, a'r defnydd parhaus o isafbris fel mesur gwella iechyd cyhoeddus wedi'i dargedu.

**74.** Rydym o'r farn ei fod yn elfen bwysig o ddull ehangach o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, yn enwedig ymhlith y rhai sy'n yfed ar lefelau niweidiol. Ymhellach, credwn fod elfen atal bwysig i'r polisi, gyda'r bwriad o leihau'r risg bod pobl eraill yn dod yn yfwyr dibynnol yn y dyfodol.

**75.** Wedi ystyried y gwerthusiad annibynnol, cawsom sicrwydd gweld y dangoswyd bod rhai o'r prif bryderon am y ddeddfwriaeth isafbris uned yn ddi-sail. Mae'n ymddangos bod y polisi wedi'i weithredu a'i orfodi'n llyfn, heb achosi baich gormodol i fanwerthwyr. Mae rhywfaint o dystiolaeth ddangosol bod yfed alcohol yng Nghymru wedi gostwng ers cyflwyno'r isafbris. Ymhellach, ymddengys nad oes tystiolaeth o yfwyr dibynnol yn troi at sylweddau mwy peryglus, anghyfreithlon.

**76.** Fodd bynnag, mae'n amlwg y bu'n anodd gwahanu effaith lawn isafbris uned ar niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru wedi oddi wrth y ffactorau cymhleth sy'n effeithio ar yfed alcohol a'i effeithiau, yn enwedig o ystyried bod gweithredu'r polisi wedi cyd-ddigwydd â dechrau'r pandemig Covid-19. Rydym hefyd yn nodi bod y gwerthusiad ei hun yn gymedrol o ran cwmpas a graddfa.

[54] Tystiolaeth ysgrifenedig, MUP15 [Saesneg yn unig]

**77.** Yn sgil hyn, credwn ei bod yn rhy gynnar i ystyried dod ag isafbris uned i ben, yn enwedig o ystyried y risg y gall fod yn anodd gweithredu'r un polisi neu bolisi tebyg eto yn y dyfodol.

**78.** Wrth gefnogi parhad isafbris uned, credwn y bydd yn bwysig i Lywodraeth Cymru barhau i fonitro a gwerthuso ei weithrediad a'i effaith, ac i'r gwerthusiad hwn fod yn gryfach ac yn fwy o ran graddfa na'i ragflaenydd. Fel rhan o hyn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i sicrhau y bydd unrhyw werthusiad o isafbris uned yn y dyfodol yn cynnwys dadansoddiad meintiol hydredol o ganlyniadau allweddol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau.

**Argymhelliad 1.** Dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno rheoliadau sy'n darparu ar gyfer parhad isafbris uned am alcohol yng Nghymru.

**Argymhelliad 2.** Fel rhan o unrhyw bolisi isafbris uned parhaus, dylai Llywodraeth Cymru barhau i fonitro a gwerthuso ei weithrediad a'i effaith. Dylai hyn fod yn gryfach, ac yn fwy o ran graddfa na'r gwerthusiad blaenorol a dylai gynnwys dadansoddiad meintiol hydredol o ganlyniadau allweddol, gan gynnwys derbyniadau i'r ysbyty a marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol.

**79.** Wrth gefnogi parhad y polisi, mae gennym rai sylwadau manylach ar feysydd penodol. Nodir y rhain isod.

**Adolygu'r isafbris uned**

**80.** Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis parhau â'r isafbris uned, credwn y dylai adolygu'r pris presennol, sef 50c yr uned, yn enwedig mewn ymateb i chwyddiant. Er nad oes gennym farn am beth y dylai'r pris newydd fod, credwn fod manteision gweinyddol i alinio â'r isafbris uned yn yr Alban.

**81.** Ymhellach, credwn fod angen i Lywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith i adolygu ac addasu'r isafbris uned yn rheolaidd er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd parhaus.

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r isafbris uned presennol am alcohol ac, wrth bennu unrhyw bris newydd, dylai ystyried manteision gweinyddol alinio â'r isafbris uned yn yr Alban.

**Argymhelliad 4.** Dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanwaith i adolygu ac addasu'r isafbris uned am alcohol yn rheolaidd, yn enwedig mewn ymateb i chwyddiant, er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd parhaus.

### Yfwyr dibynnol ac aelwydydd incwm isel

**82.** Roedd yn galonogol i ni glywed effaith gadarnhaol isafbris uned ar argaeledd y poteli mwyaf o alcohol rhad, cryf, yn enwedig seidr gwyn. Gwyddom fod y rhain wedi tueddu i gael eu hyfed yn bennaf gan yfwyr dibynnol a'u bod yn niweidiol iawn i iechyd. Fodd bynnag, roeddem yn pryderu o glywed adroddiadau ei bod yn bosibl bod rhai yfwyr dibynnol wedi troi at wirodydd o ganlyniad i lai o argaeledd poteli mwy o seidr gwyn, ac rydym yn credu bod angen i Lywodraeth Cymru ystyried hyn ymhellach.

**83.** Mae anghydraddoldeb amlwg o ran niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol, gyda'r effaith fwyaf ar ddynion, oedolion hŷn a'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Roeddem yn arbennig o bryderus am y duedd at i fyny mewn marwolaethau sy'n gysylltiedig ag alcohol yng Nghymru, yn enwedig mewn ardaloedd difreintiedig heb fawr o ddealltwriaeth wirioneddol o'r rhesymau dros hyn.

**84.** Hoffem dynnu sylw'r Gweinidog at y dystiolaeth a gawsom am effaith ariannol negyddol isafbris uned ar yfwyr dibynnol sydd ar incwm isel. Roedd hyn yn gyson â chanfyddiadau'r gwerthusiad annibynnol, ac yn tynnu sylw at y mater bod yfwyr dibynnol ar incwm isel yn dewis prynu alcohol dros hanfodion eraill, megis bwyd a thalu biliau. Roeddem yn bryderus o glywed adroddiadau am hyn, ac yn credu ei fod yn faes y mae angen sylw arno.

**85.** Yn sgil yr uchod, credwn fod angen unrhyw waith monitro a gwerthuso isafbris uned yn y dyfodol ystyried effeithiau'r polisi ar yfwyr incwm isel a dibynnol. Ymhellach, mae angen amlwg i Lywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer camddefnyddio sylweddau, fel rhan o ddull system gyfan o leihau niwed yn y maes hwn.

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod unrhyw waith monitro a gwerthuso isafbris uned am alcohol yn y dyfodol yn ystyried effaith y polisi ar yfwyr dibynnol sydd ar incwm isel.

**Argymhelliad 6.** Fel rhan o unrhyw barhad o'r isafbris uned, dylai Llywodraeth Cymru gyflwyno strategaeth wedi'i diweddaru ar gyfer camddefnyddio sylweddau fel elfen bwysig mewn dull system gyfan o leihau niwed sy'n gysylltiedig ag alcohol.

### Plant a phobl ifanc

**86.** Gall isafbris uned gael effaith gadarnhaol iawn ar blant a phobl ifanc, ond mae ffocws y gwerthusiad o'r polisi ar oedolion wedi gadael bwlch tystiolaeth.

**87.** O ganlyniad, credwn fod angen amlwg y gellir ei ddangos am fwy o ymchwil i effaith isafbris uned ar blant a phobl ifanc. Mae angen i hyn ystyried yfed dan oed, yn enwedig o ystyried y dystiolaeth bryderus o'r cynnydd mewn gwaharddiadau ysgol oherwydd alcohol, a'r effaith y mae alcohol yn ei chael ar fywydau plant a phobl ifanc mewn aelwydydd lle y mae un neu ragor o'r rhieni'n ddibynnol ar alcohol.

**Argymhelliad 7.** Dylai unrhyw werthusiad o isafbris uned yn y dyfodol ystyried effaith y polisi ar blant a phobl ifanc, gan gynnwys yfed dan oed ac effaith alcohol ar fywydau plant a phobl ifanc mewn aelwydydd lle y mae un neu ragor o'r rhieni neu'r gwarcheidwaid yn ddibynnol ar alcohol.

### Ymwybyddiaeth y cyhoedd

**88.** O ran ymwybyddiaeth o'r isafbris uned, rydym yn nodi ei bod yn ymddangos bod dealltwriaeth resymol ymhlith manwerthwyr o ddiben ac effaith arfaethedig y polisi. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod y cyhoedd yn ehangach yn llai clir am hyn.

**89.** Os bydd Llywodraeth Cymru yn dewis parhau â'r isafbris uned, bydd yn bwysig parhau â'r negeseuon iechyd cyhoeddus ochr yn ochr â hyn, i gyfleu diben y polisi isafbris, a sicrhau bod y cyhoedd yn fwy ymwybodol o effeithiau yfed alcohol, gan gynnwys y ffordd y mae yfed alcohol yn cael ei hyrwyddo. Ymhellach, credwn y dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu arolwg er mwyn monitro agweddau'r cyhoedd tuag at yr isafbris uned yn barhaus.

**Argymhelliad 8.** Os bydd Llywodraeth Cymru yn parhau â'r isafbris uned, dylai barhau â'i negeseuon iechyd cyhoeddus o ran:

- diben y polisi;
- effaith ehangach yfed gormod o alcohol ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl.

**Argymhelliad 9.** Fel rhan o unrhyw bolisi parhaus, dylai Llywodraeth Cymru ystyried comisiynu arolwg ar raddfa fawr er mwyn monitro agweddau'r cyhoedd tuag at yr isafbris uned yn barhaus.